COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 155

Amseru: Arferol

Teitl: Comisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar y Cyd

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu

Crynodeb Gweithredol: Ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, etifeddodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu nifer o ffrydiau ariannu, gan gynnwys arian Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau'r Swyddfa Gartref. Defnyddiwyd rhywfaint o'r arian hwn i fuddsoddi mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau Haen 2 wedi'u comisiynu ar y cyd yn Nyfed a Phowys, sy'n cael eu caffael a'u rheoli gan y Byrddau Cynllunio Ardal unigol. Mae tymor cytundebol gwasanaeth Haen 2 yn Nyfed yn dod i ben ym mis Mawrth 2020, ac mae'r Byrddau Cynllunio Ardal wedi ymgymryd â phroses gaffael er mwyn ail-dendro ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mae angen ymrwymiad gan bartneriaid ariannu cyfredol i barhau â'u buddsoddiad ar gyfer hyn.

Yn dilyn adolygiad o'r lefelau buddsoddi cyfredol, gwaith parhaus gyda phartneriaid Byrddau Cynllunio Ardal a chyfarfod gyda'r Cadeirydd, Ros Jervis, cynigir bod CHTh yn parhau i roi £215,000 y flwyddyn am y cytundeb cychwynnol o 2 flynedd. O fewn y 2 flynedd hyn, mae gofyniad ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth yn barhaus er mwyn hysbysu datblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau atal yn arbennig, ynghyd â data manwl ynghylch perfformiad a chanlyniadau. Bydd angen i'r gwerthusiad a gwaith cysylltiedig y Byrddau Cynllunio Ardal arddangos bod gwerth y cytundeb yn briodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth hefyd, gyda rhesymwaith/fformiwla ariannu cysylltiedig ar gyfer y cyfanswm gwerth a'r dosraniad rhwng partneriaid. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o'r canlyniadau a gyflwynir gan y cytundeb hwn a phrosiectau a gwasanaethau eraill a gomisiynir gan y Byrddau Cynllunio Ardal, a sut mae'r rhain yn cyfrannu at flaenoriaethau craidd y Byrddau Cynllunio Ardal a phartneriaid.

Argymhelliad: Cadarnhau buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynir ar y cyd yn Nyfed am gyfnod o 2 flynedd, gyda'r amodau atodedig fel yr amlinellir uchod.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 7/1/2020